Eich cyf/Your ref: WG41053
Ein cyf/Our ref: AL/SDP
Dvddiad/Date:
Rhif Uniongyrchol/Direct dial: 01824 706916

Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

Cynllun Datblygu Strategol (CDS)
Ymgynghoriad Rheoliadau Cangen
Cynlluniau
Y Gyfarwyddiaeth Gynllunio
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Annwyl Syr/Fadam

**Ynglŷn â: Ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru: Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2021**

Diolch am ymgynghori ar y ddogfen uchod. Trafodwyd y ddogfen drafft yng nghyfarfod Grŵp Cynllunio Strategol y Cyngor ar 25 Tachwedd 2020 a mynegodd Aelodau bryder y gallai datblygu Cynllun Datblygu Strategol danseilio democratiaeth leol, gyda phryderon bod penderfyniadau am dwf sy'n cael eu gwneud ar lefel strategol yn y Cydbwyllgor Corfforaethol yn cael eu gosod ar awdurdodau cynllunio lleol unigol yn hytrach na chytuno arnynt. Dyma nhw hefyd yn tynnu sylw at yr achosion yn ymwneud â chostau ac argaeledd adnoddau i gefnogi'r gwaith o ddatblygu'r Cynlluniau Datblygu Strategol.

Mae ymatebion manwl i gwestiynau'r ymgynghoriad wedi'u nodi isod:

**C1 Ydych chi'n cytuno y dylai'r Rheoliadau CDS fod yn lled adlewyrchu'r cyfnodau allweddol a bod y gofynion ar gyfer paratoi cynllun wedi'u cynnwys yn Rheoliadau'r CDLl, yn ddarostyngedig i'r eithriadau y cyfeirir atynt? Os nad ydych, eglurwch pam?**

Ymateb y Cyngor: Mae'r broses a'r gweithdrefnau arfaethedig yn y ddogfen ymgynghori yn lled adlewyrchu'r broses CDLl ac yn cael eu croesawu gan iddyn nhw arddangos ymagwedd gyson a'r gallu i wneud archwiliad annibynnol o Gynlluniau Datblygu Strategol. Byddai'r Cyngor yn cwestiynu'r rhagdybiaeth fod pedair blynedd yn ddigonol i baratoi CDS o ystyried graddfa'r CDS a'r heriau anochel o ymrwymo'n effeithiol gyda chymunedau lleol a sicrhau cytundeb saith awdurdod cynllunio lleol gwahanol.

**C2 Ydych yn cytuno gyda'r ymagwedd arfaethedig i'r Cynllun Cynnwys Cymunedau a'r Cytundeb Cyflawni? Os nad ydych, eglurwch pam?**



DRAFT

Ymateb y Cyngor: Mae’r heriau a’r adnoddau sydd eu hangen i ymgysylltu’n effeithiol ar draws y rhanbarth yn debygol o fod yn sylweddol ac ni ddylid eu diystyru.

**C3 Ydych yn cytuno gyda’r rhestr o gyrff ymgynghori penodol wedi’u rhestru yn Atodiad 1? Os nad ydych, pwy arall ddylai gael eu hystyried i’w ymgynnwys a pham?**

Ymateb y Cyngor: Mae’r gofyniad i ymgynghori â’r awdurdodau cynllunio lleol perthnasol a chynghorau cymuned yn cael ei groesawu, fodd bynnag dylai’r rhestr o gyrff ymgynghori gael eu hymestyn i gynnwys:

- Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned (dim ond Cynghorau Cymuned y cyfeirir atynt)
- Darparwyr Isadeiledd Telathrebu
- Gwasanaethau Brys
- Gweithredwyr Cludiant (mwy na rheilffyrdd yn unig)
- Grwpiau Amgylcheddol lleol/rhanbarthol
- Aelodau Seneddol y Deyrnas Unedig/Aelodau’r Senedd/Cynghorwyr Sir
- Addysg Uwch / Addysg Bellach
- Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE

**C4 Ydych yn cytuno gyda'r ymagwedd o baratoi ac ymgynghori mewn dau gam wedi’u cynnig ar gyfer Dogfen I'w Harchwilio Gan Y Cyhoedd a Strategaeth a Ffefrir? Os nad ydych, eglurwch pam a pha ymagwedd arall y byddech yn ei awgrymu?**

Ymateb y Cyngor: Mae’r cyfnodau hyn yn adlewyrchu’r broses CDLl ac yn gyffredinol byddai’r Cyngor yn cefnogi’r ymagwedd hwn, fodd bynnag mae’r profiad o weithio ar CDLl Sir Ddinbych wedi dangos fod cyhoeddi ac ymgynghori ar y ‘Cofrestr Safleoedd Posib’ ynghyd â chyhoeddiad o’r Strategaeth a Ffefrir yn arwain at lawer o ddryswch a chamddealltwriaeth dros statws y ‘safleoedd posib’. Awgrymir na ddylai’r cyhoeddiad o Safleoedd Posib gael ei wneud ar yr un pryd â chyhoeddi’r Strategaeth a Ffefrir. Un dewis o bosib fyddai cyflawni’r broses galw am safleoedd posib ar ôl cyhoeddi’r Strategaeth a Ffefrir. Yna gall y rheiny sy’n dymuno cyflwyno safleoedd posib wneud hynny yn gwybod bod yr ymagwedd strategol drafft wedi’i gynnig. Yn ychwanegol, ni ddylai fod yna siawns i gyflwyno safleoedd posib ychwanegol ar ôl y broses ffurfiol o ‘alw am safleoedd’ oni bai fod yna ofyniad a chais penodol am safleoedd ychwanegol gan y Cydbwyllgorau Corfforedig.

**C5 Ydych yn cytuno gyda’r elfennau penodol o’r gweithdrefnau a’r gofynion arfaethedig ar gyfer paratoi CDS yn cynnwys cynigion o’r broses cyn-adneuo i’r ddogfen gael ei harchwilio gan y cyhoedd? Os nad ydych, eglurwch pam?**

DRAFT

Blwch Post 62
Rhuthun LL15 9AZ
01824 706916
polisicynllunio@sirddinbych.gov.uk

PO Box 62
Ruthin Ll15 9AZ
01824 706916
planningpolicy@denbighshire.gov.uk

Ymateb y Cyngor: Eto, mae'r camau hyn yn adlewyrchu'r broses CDLl presennol, fodd bynnag fel y codwyd eisoes mae'n debyg y bydd heriau i sicrhau ymrwymiad effeithiol gan y cyhoedd ar hyd rhanbarth Gogledd Cymru.

Mae'r arweiniad pellach ar y berthynas rhwng y CDS sy'n dod i'r fei a datblygu CDLl cryno newydd yn ddefnyddiol, yn arbennig o ran amseriad. Ni fydd CDS yn cael unrhyw effaith nes y bydd wedi'i archwilio a'i fabwysiadu. Felly, a fyddai'n rhaid i awdurdodau cynllunio ddisgwyl nes bod y CDS wedi'i fabwysiadu cyn symud ymlaen gyda datblygu CDLl cryno? Mae hyn yn annhebygol o fod yn broblem i CDLl Newydd Sir Ddinbych gan fod disgwyl iddo gael ei fabwysiadu cyn dechrau'r gwaith ar y CDS. Fodd bynnag, gall fod yn broblem i awdurdodau eraill.

**C6 Ydych yn cytuno gyda'r ymagwedd arfaethedig i gyflwyno, archwilio a mabwysiadu CDS? Os nad ydych, eglurwch pam?**

Ymateb y Cyngor: Mae'r rhain unwaith eto yn adlewyrchu'r broses CDLl presennol ac eto'r prif bryder yw'r rhagdybiaeth y bydd y cyfnodau a'r prosesau hyn yn gweithredu fel y maen nhw ar gyfer y CDLl unigol ar hyn o bryd gan mai'r unig wahaniaeth yw'r raddfa. Gall olygu gwahaniaeth sylweddol. Hefyd o ystyried y bydd y CDS yn canolbwyntio ar sefydlu lefelau twf a'i ddosbarthiad ar draws is-ranbarth, mae angen rhoi ystyriaeth i'r sylw a wnaed yn gynharach am archwilio'r Strategaeth a Ffefrir.

**C7 Ydych yn cytuno gyda'r ymagwedd arfaethedig o fonitro, adolygu a diwygio'r CDS? Os nad ydych, eglurwch pam?**

Ymateb y Cyngor: Mae'r proses hwn yn adlewyrchu arfer presennol a byddai'n dderbyniol mewn egwyddor, fodd bynnag, byddai eglurder pellach ar y cysylltiadau i Gynlluniau Datblygu Lleol a monitro CDLl yn ddefnyddiol.

**C8 Ydych yn cytuno gyda'r ymagwedd arfaethedig ar gyfer tynnu'r CDS yn ôl? Os nad ydych, eglurwch pam?**

Ymateb y Cyngor: Mae eglurder pellach ar y perthnasau rhwng CDS ar y gweill ac unrhyw CDLl ar y gweill yn ddefnyddiol, yn arbennig o ran y canlyniadau ar gyfer CDLl ar y gweill pe bai CDS yn cael ei dynnu'n ôl cyn y cyfnod cyflwyno.

**C9 Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, cofiwch roi gwybod i ni amdanyn nhw.**

Ymateb y Cyngor: Mae pryderon y gallai datblygu Cynllun Datblygu Strategol danseilio democratiaeth leol, ac y byddai penderfyniadau am dwf sy'n cael eu gwneud ar lefel strategol yn y Cydbwyllgor Corfforaethol yn cael eu gosod ar awdurdodau cynllunio lleol

Blwch Post 62
Rhuthun LL15 9AZ
01824 706916
polisicynllunio@sirddinbych.gov.uk

PO Box 62
Ruthin Ll15 9AZ
01824 706916
planningpolicy@denbighshire.gov.uk

DRAFT

unigol yn hytrach na chytuno arnynt.  Mae pryderon hefyd ynghylch costau ac argaeledd adnoddau i gefnogi'r gwaith o ddatblygu'r Cynlluniau Datblygu Strategol.

Yn ddiffuant

**Cynghorydd Mark Young** - Aelod Arweiniol Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Chymunedau Mwy Diogel

DRAFT

hyderus o ran anabledd CYFLOGWR
disability confident EMPLOYER

Blwch Post 62
Rhuthun LL15 9AZ
01824 706916
polisicynllunio@sirddinbych.gov.uk

PO Box 62
Ruthin Ll15 9AZ
01824 706916
planningpolicy@denbighshire.gov.uk